



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 85 (Cy. 39)

2016 No. 85 (W. 39)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Pwyllgorau Safonau,
Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac
Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio)
2016

The Local Government (Standards
Committees, Investigations,
Dispensations and Referral) (Wales)
(Amendment) Regulations 2016

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (2001/2283 (Cy. 172)) ("y Rheoliadau Pwyllgorau Safonau"), Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (2001/2281 (Cy. 171)) ("y Rheoliadau Swyddogaethau"), a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (2001/2279 (Cy. 169)) ("y Rheoliadau Gollyngiadau") er mwyn gwneud newidiadau i'r modd y mae'r system sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau yn gweithredu gyda'r nod o wella democratiaeth leol.

These Regulations amend the Standards Committees (Wales) Regulations 2001 (2001/2283 (W. 172)) ("the Standards Committee Regulations"), the Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001 (2001/2281 (W. 171)) ("the Functions Regulations"), and the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001 (2001/2279 (W. 169)) ("the Dispensations Regulations") to implement changes in operation of the system governing member conduct with the aim of improving local democracy.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau ac yn gwneud darpariaeth:

Regulation 2 amends the Standards Committee Regulations and makes provision:

yn diwygio'r darpariaethau presennol er mwyn hwyluso gweithrediad cyd-bwyllgorau safonau;

amending existing provisions to facilitate the operation of joint standards committees;

yn diwygio'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â hyd cyfnod swydd aelodau o bwyllgorau safonau; ac

amending existing provisions relating to the length of the term of office of members of standards committees; and

yn egluro bod awdurdod perthnasol wedi ei eithrio rhag sicrhau bod yr adroddiad neu'r argymhellion ar ymchwiliad ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt hyd nes y bydd trafodion camymddygiad wedi dod i ben.

clarifying that a relevant authority is exempt from making the report or recommendations of an investigation available for public inspection until misconduct proceedings are concluded.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Rheoliadau Swyddogaethau ac yn cynnwys darpariaeth:

yn galluogi swyddog monitro a phwyllgor safonau un awdurdod i atgyfeirio adroddiad neu argymhellion y swyddog monitro i bwyllgor safonau awdurdod arall iddo ddyfarnu arnynt; a

yn manylu ar y weithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Gollyngiadau er mwyn darparu gweithdrefn ar gyfer atgyfeirio cais aelod am ollyngiad i bwyllgor safonau awdurdod arall iddo ddyfarnu arno.

Dyma fanylion y darpariaethau—

Rheoliad 2

Cyd-bwyllgorau Safonau

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (“Deddf 2000”) yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ymddygiad aelodau a chyflogeion awdurdodau lleol.

Mae adran 53(1) o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru, hynny yw, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ond nid, at y diben hwn, gynghorau cymuned, sefydlu pwyllgor safonau sydd i gael y swyddogaethau a roddir iddo gan neu o dan Ran III o Ddeddf 2000.

Diwygiodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) adran 53(1) o Ddeddf 2000 er mwyn galluogi dau awdurdod perthnasol neu ragor i sefydlu cyd-bwyllgor safonau.

Yn unol ag adran 53(11) o Ddeddf 2000, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch (ymhlith pethau eraill) maint, aelodaeth a thrafodion pwyllgorau safonau awdurdodau perthnasol yng Nghymru gan gynnwys cyd-bwyllgorau, ac unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir o dan adrannau 54A neu 56 o Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau er mwyn hwyluso gweithrediad cyd-bwyllgorau safonau. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau pwyllgor cymunedol ac aelodau annibynnol i gyd-bwyllgor safonau; mae'n cyfyngu ar nifer yr aelodau gweithredol o gyd-bwyllgorau safonau; ac mae'n gwneud darpariaeth sy'n sicrhau bod swyddog monitro o un o'r awdurdodau perthnasol cyfansoddol yn bresennol ym mhob cyfarfod o gyd-bwyllgor safonau. Yn unol â'r diwygiadau yn rheoliad 2 caiff swyddogaethau pwyllgor safonau o fewn

Regulation 3 amends the Functions Regulations and includes provision:

enabling a monitoring officer and a standards committee of one authority to refer a report or recommendations of the monitoring officer to the standards committee of another authority for determination; and

detailing the procedure for appealing against the decision of a standards committee.

Regulation 4 amends the Dispensations Regulations to provide a procedure for a member's application for a dispensation to be referred to the standards committee of another authority for determination.

The detailed provisions are as follows—

Regulation 2

Joint Standards Committees

Part III of the Local Government Act 2000 (“the 2000 Act”) makes provision with respect to the conduct of local authority members and employees.

Section 53(1) of the 2000 Act requires every relevant authority in Wales, that is, county and county borough councils, fire and rescue authorities and National Park authorities, but not for this purpose, community councils, to establish a standards committee which is to have the functions conferred on it by or under Part III of the 2000 Act.

The Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (“the 2013 Act”) amended section 53(1) of the 2000 Act to enable two or more relevant authorities to establish a joint standards committee.

In accordance with section 53(11) of the 2000 Act, the Welsh Ministers may by regulations make provision as to (among other things) the size, composition and proceedings of standards committees of relevant authorities in Wales including joint committees, and any sub-committees established under sections 54A or 56 of the 2000 Act.

Regulation 2 amends the Standard Committees Regulations to facilitate the operation of joint standards committees. It makes provision for the appointment of community committee and independent members to a joint standards committee; it limits the number of executive members of a joint standards committee; and it makes provision ensuring that every meeting of a joint standards committee is attended by a monitoring officer of one of the constituent relevant authorities. In accordance with the amendments in regulation 2 the functions of a standards committee within regulations 13 to 17 of the

rheoliadau 13 i 17 o'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau gael eu cyflawni, yn achos cyd-bwyllgor safonau, gan unrhyw un o awdurdodau perthnasol cyfansoddol cyd-bwyllgor safonau.

Gwneir darpariaeth o fewn rheoliad 2 hefyd sy'n diwygio hyd cyfnod swydd aelodau o bwyllgorau safonau.

Cyhoeddi Adroddiadau Camymddygiad

Mae adran 51(1) o Ddeddf 2000 yn gosod dyletswydd ar yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru i fabwysiadu cod sy'n pennu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan eu haelodau a'u haelodau cyfetholedig.

O dan adran 69 o Ddeddf 2000 caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i unrhyw honiadau bod aelodau neu aelodau cyfetholedig (neu gyn aelodau neu gyn aelodau cyfetholedig) wedi torri cod ymddygiad awdurdod perthnasol yng Nghymru.

Pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi'r gorau i ymchwiliad o'r fath cyn iddo gael ei gwblhau (o dan adran 70(4) o Ddeddf 2000) caniateir atgyfeirio'r mater sy'n destun yr ymchwiliad i swyddog monitro yr awdurdod perthnasol.

Neu fel arall, pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dyfarnu (o dan adran 71(2) o Ddeddf 2000) ei bod yn briodol i'r mater gael ei atgyfeirio i swyddog monitro yr awdurdod perthnasol, rhaid i'r Ombwdsmon lunio adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad a'i anfon at y swyddog monitro ac at bwyllgor safonau yr awdurdod.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth i eithrio pwyllgor neu is-bwyllgor safonau rhag trefnu bod adroddiad neu argymhellion camymddygiad ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt hyd nes y bydd trafodion camymddygiad o dan y Rheoliadau Swyddogaethau wedi dod i ben. Mae'r rheoliad hefyd yn nodi'r digwyddiadau a fydd yn dynodi diwedd y trafodion ac yn sbarduno'r rhwymedigaeth i gyhoeddi'r deunyddiau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Rheoliad 3

Mae adran 73 o Ddeddf 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu sut i ymdrin â materion a atgyfeirir at swyddog monitro a phwyllgor safonau. Mae'r Rheoliadau Swyddogaethau yn nodi cyfrifoldebau'r swyddog monitro a'r pwyllgor safonau mewn perthynas ag ymchwiliad, llunio adroddiad a chanlyniad ymchwiliad.

Standards Committee Regulations may, in the case of a joint standards committee, be discharged by any one of the constituent relevant authorities of a joint standards committee.

Provision is also made within regulation 2 amending the length of the term of office of members of standards committees.

Publication of Misconduct Reports

Section 51(1) of the 2000 Act imposes a duty upon all relevant authorities in Wales to adopt a code specifying the standards of conduct expected of their members and co-opted members.

Under section 69 of the 2000 Act the Public Services Ombudsman for Wales may investigate any alleged breach by members or co-opted members (or former members or co-opted members) of the code of conduct of a relevant authority in Wales.

Where the Public Services Ombudsman for Wales ceases such an investigation before it is completed (under section 70(4) of the 2000 Act) the matter subject to the investigation may be referred to the monitoring officer of the relevant authority.

Alternatively, where the Public Services Ombudsman for Wales determines (under section 71(2) of the 2000 Act) that it is appropriate for the matter to be referred to the monitoring officer of the relevant authority, the Ombudsman must produce a report on the outcome of the investigation and send it to the monitoring officer and the authority's standards committee.

Regulation 2 makes provision to exempt a standards committee or sub-committee from making a misconduct report or recommendations available for public inspection until misconduct proceedings under the Functions Regulations are concluded. The regulation also sets out the events that will signify the end of the proceedings and which give rise to the obligation to publish the materials as soon as reasonably practicable.

Regulation 3

Section 73 of the 2000 Act enables the Welsh Ministers to make regulations specifying how matters referred to a monitoring officer and standards committee are to be dealt with. The Functions Regulations set out the responsibilities of the monitoring officer and the standards committee in relation to an investigation, the production of a report and the outcome of an investigation.

Diwygiodd adran 69 o Ddeddf 2013 y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 73 o Ddeddf 2000 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n galluogi swyddog monitro neu bwyllgor safonau i atgyfeirio adroddiad neu argymhellion sy'n ymwneud ag ymchwiliad camymddygiad i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall. Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Rheoliadau Swyddogaethau er mwyn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud atgyfeiriad o'r fath.

Mewn perthynas â hawl aelod i apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau, mae rheoliad 3 yn darparu na all apel fynd yn ei blaen oni bai bod llywydd Panel Dyfarnu Cymru, neu enwebai, wedi rhoi caniatâd i'r apel fynd yn ei blaen yn gyntaf. Nodir y weithdrefn a'r amserlen sy'n gymwys i gais am ganiatâd i apelio o fewn y rheoliad hefyd.

Rheoliad 4

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Gollyngiadau fel y gall cais am ollyngiad gan aelod gael ei atgyfeirio i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall iddo ddyfarnu arno. Mae'r rheoliad hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer categori ychwanegol o ollyngiad cyffredinol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Section 69 of the 2013 Act amended the regulation-making power in section 73 of the 2000 Act so as to allow the Welsh Ministers to make provision enabling a monitoring officer or a standards committee to refer a report or recommendations relating to a misconduct investigation to the standards committee of another relevant authority. Regulation 3 amends the Functions Regulations to set out the procedure to be followed when making such a referral.

In relation to the right of a member to appeal against the decision of a standards committee, regulation 3 provides that an appeal may only proceed if the president of the Adjudication Panel for Wales, or a nominee, has first granted permission for the appeal to proceed. The procedure and timescales that apply to an application for permission to appeal are also set out in within the regulation.

Regulation 4

Regulation 4 amends the Dispensations Regulations so an application by a member for a dispensation can be referred to the standards committee of another relevant authority for determination. The regulation also makes provision for an additional category of general dispensation.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Local Government Democracy Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2016 Rhif 85 (Cy. 39)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Pwyllgorau Safonau,
Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac
Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio)
2016**

Gwnaed 27 Ionawr 2016

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 2 Chwefror 2016

Yn dod i rym 1 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 53(11)(1) a (12), 56(5), 73(1), 81(5)(2), 105(1) a (2) a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(3) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(4), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwysio

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2016.

-
- (1) Rhoddodd adran 68(1) a (2)(c)(i) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) y geiriau "Welsh Ministers" yn lle "National Assembly for Wales" yn adran 53(11) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22) ("Deddf 2000").
- (2) Rhoddodd adran 26 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) ("Deddf 2011"), a pharagraffau 7 a 48(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 4 iddi, y geiriau "Welsh Ministers" yn lle "Secretary of State" yn adran 81(5) o Ddeddf 2000. Diddymwyd is-adran (8) o adran 81 o Ddeddf 2000 gan adran 26 o Ddeddf 2011, a pharagraffau 7 a 48(1) a (4) o Ran 1 o Atodlen 4 iddi, ac adran 237 o Ddeddf 2011 a Rhan 5 o Atodlen 25 iddi.
- (3) 2000 p. 22.
- (4) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 53, 56, 73, 81, 105 a 106 i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

2016 No. 85 (W. 39)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Local Government (Standards
Committees, Investigations,
Dispensations and Referral) (Wales)
(Amendment) Regulations 2016**

Made 27 January 2016

*Laid before the National Assembly
for Wales* 2 February 2016

Coming into force 1 April 2016

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 53(11)(1) and (12), 56(5), 73(1), 81(5)(2), 105(1) and (2) and 106 of the Local Government Act 2000(3) and now vested in them(4), make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Local Government (Standards Committees, Investigations, Dispensations and Referral) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 and they come into force on 1 April 2016.

-
- (1) Section 68(1) and (2)(c)(i) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) substituted the words "Welsh Ministers" for "National Assembly for Wales" in section 53(11) of the Local Government Act 2000 (c. 22) ("the 2000 Act").
- (2) Section 26 and paragraphs 7 and 48(1) and (2) of Part 1 of Schedule 4 to the Localism Act 2011 (c. 20) ("the 2011 Act") substituted the words "Welsh Ministers" for "Secretary of State" in section 81(5) of the 2000 Act. Subsection (8) of section 81 of the 2000 Act was repealed by section 26 and paragraphs 7 and 48(1) and (4) of Part 1 of Schedule 4 to, and section 237 and Part 5 of Schedule 25 to, the 2011 Act.
- (3) 2000 c. 22.
- (4) The functions of the National Assembly for Wales under sections 53, 56, 73, 81, 105 and 106 were transferred to the Welsh Ministers under section 162 and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

2.—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) yn y diffiniad o “aelod pwyllgor cymunedol” (“*community committee member*”), ar ôl “awdurdod” mewnosoder “neu'r awdurdodau”;
- (b) yn lle'r diffiniad o “awdurdod tân” (“*fire authority*”) rhodder—
“ystyr “awdurdod tân ac achub” (“*fire and rescue authority*”) yw awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(2) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;”;
- (c) yn y diffiniad o “aelod annibynnol” (“*independent member*”), yn lle'r geiriau o “o'r awdurdod perthnasol” i “chyingor cymuned” rhodder “o awdurdod perthnasol na chyingor cymuned”;
- (d) yn y lle priodol mewnosoder—
“ystyr “cyd-bwyllgor” (“*joint committee*”) yw pwyllgor a sefydlir gan ddau awdurdod perthnasol neu ragor o dan adran 53(1)(3) o Ddeddf 2000;”;
- (e) yn lle'r diffiniad o “aelod panel lleyg” (“*lay panel member*”), rhodder—
“ystyr “aelod panel lleyg” (“*lay panel member*”) yw aelod o banel a sefydlir o dan reoliad 15—
 - (a) nad yw, ac nad yw wedi bod, yn aelod, yn aelod cyfetholedig nac yn swyddog o awdurdod perthnasol na chyingor cymuned, neu
 - (b) nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod neu swyddog o awdurdod perthnasol na chyingor cymuned;”;
- (f) yn lle'r diffiniad o “gweithrediaeth maer a chabinet” (“*mayor and cabinet executive*”), rhodder—

Amendments to the Standards Committees (Wales) Regulations 2001

2.—(1) The Standards Committees (Wales) Regulations 2001(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

- (a) in the definition of “community committee member” (“*aelod pwyllgor cymunedol*”), after “authority” insert “or authorities”;
- (b) for the definition of “fire authority” (“*awdurdod tân*”) substitute—
““fire and rescue authority” (“*awdurdod tân ac achub*”) means a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004(2) or a scheme to which section 4 of that Act applies;”;
- (c) in the definition of “independent member” (“*aelod annibynnol*”), for the words “the relevant authority” to “community council” substitute “a relevant authority or a community council”;
- (d) in the appropriate place insert—
““joint committee” (“*cyd-bwyllgor*”) means a committee established by two or more relevant authorities under section 53(1)(3) of the 2000 Act;”;
- (e) for the definition of “lay panel member” (“*aelod panel lleyg*”), substitute—
““lay panel member” (“*aelod panel lleyg*”) means a member of a panel established under regulation 15 who—
 - (a) is not and has not been a member, co-opted member or officer of a relevant authority or a community council, or
 - (b) is not the spouse or civil partner of a member or officer of a relevant authority or a community council;”;
- (f) for the definition of “mayor and cabinet executive” (“*gweithrediaeth maer a chabinet*”), substitute—

(1) O.S. 2001/2283 (Cy. 172).

(2) 2004 (p. 21).

(3) Diwygiwyd adran 53(1) gan adran 68(1) a (2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4).

(1) S.I. 2001/2283 (W. 172).

(2) 2004 (c. 21).

(3) Section 53(1) was amended by section 68(1) and (2)(a) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4).

“ystyr “gweithrediaeth maer a chabinet” (“*mayor and cabinet executive*”) yw’r math o drefniadau gweithrediaeth a bennir yn adran 11(2) o Ddeddf 2000;”;

- (g) yn y diffiniad o “aelod” (“*member*”), ym mharagraff (b), yn lle “awdurdod tân” rhodder “awdurdod tân ac achub”;
- (h) yn y diffiniad o “awdurdod perthnasol” (“*relevant authority*”), ym mharagraff (ch) yn lle “awdurdod tân” rhodder “awdurdod tân ac achub”;
- (i) yn y diffiniad o “is-bwyllgor adran 54A” (“*section 54A sub-committee*”), hepgorer y geiriau “awdurdod perthnasol”;
- (j) yn lle’r diffiniad o “pwyllgor safonau” (“*standards committee*”) rhodder—

“ystyr “pwyllgor safonau” (“*standards committee*”), oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw—

- (a) pwyllgor safonau awdurdod perthnasol;
- (b) cyd-bwyllgor;
- (c) is-bwyllgor adran 54A; neu
- (d) is-bwyllgor cymunedol;”.

(3) Yn rheoliad 4, ym mharagraff (a), ar ôl “awdurdod” mewnosoder “neu’r awdurdodau”.

(4) Yn rheoliad 8, ym mharagraff (3), yn lle “awdurdod tân” rhodder “awdurdod tân ac achub”.

(5) Yn lle rheoliad 9, rhodder—

“9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth ni chaiff pwyllgor safonau gynnwys mwy nag un aelod gweithredol o’r awdurdod hwnnw.

(2) Pan fo dau awdurdod lleol neu ragor wedi sefydlu cyd-bwyllgor, ni chaiff y pwyllgor hwnnw gynnwys mwy nag un aelod gweithredol o bob un awdurdod lleol cyfansoddol.”

(6) Yn rheoliad 10—

- (a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl y gair “hwnnw” mewnosoder “neu yn achos cyd-bwyllgor, yn ardal yr awdurdodau lleol cyfansoddol”;
- (b) ym mharagraff (2), ar ôl “hwnnw” mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, gan ba un bynnag o awdurdodau lleol cyfansoddol y pwyllgor hwnnw y cytunir arno rhyngddynt”;
- (c) ym mharagraff (3)(a), ar ôl “ardal” mewnosoder “neu yn achos cyd-bwyllgor, ardaloedd cyfun yr awdurdodau cyfansoddol”.

““mayor and cabinet executive” (“*gweithrediaeth maer a chabinet*”) means the form of executive arrangements specified in section 11(2) of the 2000 Act;”;

- (g) in the definition of “member” (“*aelod*”), in paragraph (b), for “fire authority” substitute “fire and rescue authority”;
- (h) in the definition of “relevant authority” (“*awdurdod perthnasol*”), in paragraph (d) for “fire authority” substitute “fire and rescue authority”;
- (i) in the definition of “section 54A sub-committee” (“*is-bwyllgor adran 54A*”), omit the words “of a relevant authority”;
- (j) for the definition of “standards committee” (“*pwyllgor safonau*”) substitute—

““standards committee” (“*pwyllgor safonau*”), unless the context otherwise requires, means—

- (a) a standards committee of a relevant authority;
- (b) a joint committee;
- (c) a section 54A sub-committee; or
- (d) a community sub-committee;”.

(3) In regulation 4, in paragraph (a), after “authority” insert “or authorities”.

(4) In regulation 8, in paragraph (3), for “fire authority” substitute “fire and rescue authority”.

(5) For regulation 9, substitute—

“9.—(1) Subject to paragraph (2), where a local authority operates executive arrangements a standards committee may not include more than one executive member from that authority.

(2) Where two or more local authorities have established a joint committee, that committee may not include more than one executive member from each constituent local authority.”

(6) In regulation 10—

- (a) in paragraph (1)(a), after the word “area” insert “or in the case of a joint committee, in the area of the constituent local authorities”;
- (b) in paragraph (2), after “local authority” the second time it occurs insert “or, in the case of a joint committee, by whichever of the constituent local authorities of that committee as is agreed between them”;
- (c) in paragraph (3)(a), after “area” insert “or in the case of a joint committee, the combined areas of the constituent authorities”.

(7) Cyn rheoliad 13, yn syth ar ôl y pennawd “Penodi aelodau annibynnol i bwyllgorau safonau”, mewnosoder—

“12A.—(1) Yn rheoliadau 13 i 17 mae gofyniad ar awdurdod perthnasol neu weithred ganddo mewn cysylltiad ag ardal yr awdurdod hwnnw yn cynnwys, yn achos cyd-bwyllgor, ardaloedd cyfun awdurdodau cyfansoddol y pwyllgor hwnnw.

(2) Yn rheoliadau 13 i 17 caniateir i ofyniad ar awdurdod perthnasol gael ei gyflawni, yn achos cyd-bwyllgor, gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol cyfansoddol.”

(8) Yn rheoliad 18—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n aelod o'r awdurdod hwnnw beidio â bod yn hwy na'r cyfnod tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn dilyn penodi'r aelod i'r pwyllgor.”;

(b) ym mharagraff (2), ar y diwedd mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, o awdurdod lleol cyfansoddol o'r pwyllgor hwnnw”.

(9) Yn rheoliad 18A—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n aelod pwyllgor cymunedol beidio â bod yn hwy na'r cyfnod tan yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor cymuned y mae'n aelod ohono yn dilyn ei benodi i'r pwyllgor safonau.”;

(b) ym mharagraff (2), ar y diwedd mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, o awdurdod lleol cyfansoddol o'r pwyllgor hwnnw”.

(10) Yn rheoliad 19—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Pan fo awdurdod perthnasol yn awdurdod Parc Cenedlaethol neu'n awdurdod tân ac achub, rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw sy'n aelod o awdurdod o'r fath beidio â bod yn hwy na'r cyfnod tan y bydd yr aelod hwnnw yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw.”;

(b) ym mharagraff (2), ar y diwedd mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, o awdurdod perthnasol cyfansoddol o'r pwyllgor hwnnw”.

(11) Yn rheoliad 21—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

(7) Before regulation 13, immediately after the heading “Appointment of independent members to standards committees”, insert—

“12A.—(1) In regulations 13 to 17 a requirement or act of a relevant authority in respect of that authority's area includes in the case of a joint committee, the combined areas of that committee's constituent authorities.

(2) In regulations 13 to 17 a requirement of a relevant authority may, in the case of a joint committee, be discharged by any one of the constituent local authorities.”

(8) In regulation 18—

(a) for paragraph (1) substitute—

“(1) The term of office of a member of a local authority standards committee who is a member of that authority shall be no longer than the period until the next ordinary local government elections for that authority following the member's appointment to the committee.”;

(b) in paragraph (2), at the end insert “or, in the case of a joint committee, of a constituent local authority of that committee”.

(9) In regulation 18A—

(a) for paragraph (1) substitute—

“(1) The term of office of a member of a local authority standards committee who is a community committee member shall be no longer than the period until the next ordinary elections for the community council of which he or she is a member following his or her appointment to the standards committee.”;

(b) in paragraph (2), at the end insert “or, in the case of a joint committee, of a constituent local authority of that committee”.

(10) In regulation 19—

(a) for paragraph (1) substitute—

“(1) Where a relevant authority is a National Park authority or a fire and rescue authority, the term of office of a member of that authority's standards committee who is a member of such an authority shall be no longer than the period until that member ceases to be a member of that authority.”;

(b) in paragraph (2), at the end insert “or, in the case of a joint committee, of a constituent relevant authority of that committee”.

(11) In regulation 21—

(a) for paragraph (1) substitute—

“(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) o reoliad 18 a pharagraff (2) o reoliad 19, caniateir i aelod o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol sy'n aelod o'r awdurdod hwnnw, neu yn achos cyd-bwyllgor sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol o'r pwyllgor hwnnw, gael ei ailbenodi am un tymor olynol pellach.”;

(b) ym mharagraff (2), ar ôl “hwnnw” mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, gan ba un bynnag o'r awdurdodau perthnasol cyfansoddol y cytunir arno rhyngddynt.”.

(12) Yn rheoliad 21A—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “hwnnw” mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, gan ba un bynnag o'r awdurdodau lleol cyfansoddol y cytunir arno rhyngddynt.”;

(b) ym mharagraff (2)(a), ar ôl “ardal” mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, ardaloedd cyfun yr awdurdodau cyfansoddol”.

(13) Yn rheoliad 22, ar ddiwedd paragraff (8) mewnosoder “neu, yn achos cyd-bwyllgor, i swyddog priodol pa un bynnag o'r awdurdodau perthnasol cyfansoddol y cytunir arno rhyngddynt at y diben hwnnw”.

(14) Yn rheoliad 23, ym mharagraff (1), ar ôl “awdurdod” mewnosoder “neu'r awdurdodau”.

(15) Yn rheoliad 25, yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Rhaid i swyddog monitro neu gynrychiolydd swyddog monitro awdurdod perthnasol, neu yn achos cyd-bwyllgor, swyddog monitro neu gynrychiolydd swyddog monitro awdurdod cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor hwnnw, fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor safonau.”

(16) Yn rheoliad 26, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A)(a) Yn ddarostyngedig i'r is-baragraffau a ganlyn, rhaid darllen adrannau 100B i 100D fel pe na baent yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor safonau gyhoeddi, neu sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd fel arall, agendâu, cofnodion, neu wybodaeth sy'n gysylltiedig â mater a atgyfeirir at ei bwyllgor safonau yn unol ag adran 70(4) neu (5) neu adran 71(2) neu (4) o Ddeddf 2000;

(b) bydd yr eithriad i'r gofynion i ddarparu mynediad i agendâu ac adroddiadau y darperir ar ei gyfer yn is-baragraff (a) yn peidio â bod yn gymwys pan fo trafodion y pwyllgor safonau yn dod i ben;

“(1) Subject to paragraph (2) of regulation 18 and paragraph (2) of regulation 19, a member of the standards committee of a relevant authority who is a member of that authority, or in the case of a joint committee is a member of a constituent authority of that committee, may be reappointed for one further consecutive term.”;

(b) in paragraph (2), after “authority” the second time it occurs insert “or, in the case of a joint committee, by such of the constituent relevant authorities as may be agreed between them.”.

(12) In regulation 21A—

(a) in paragraph (1), after “local authority” the second time it occurs insert “or, in the case of a joint committee, by such of the constituent local authorities as may be agreed between them.”;

(b) in paragraph (2)(a), after “area” insert “or, in the case of a joint committee, the combined areas of the constituent authorities”.

(13) In regulation 22, at the end of paragraph (8) insert “or, in the case of a joint committee, to the proper officer of such of the constituent relevant authorities as is agreed between them for that purpose”.

(14) In regulation 23, in paragraph (1), after “relevant authority” insert “or authorities”.

(15) In regulation 25, for paragraph (3) substitute—

“(3) The monitoring officer or a representative of the monitoring officer of a relevant authority, or in the case of a joint committee, the monitoring officer or a representative of the monitoring officer of a constituent authority of that joint committee, shall attend every meeting of the standards committee.”

(16) In regulation 26, after paragraph (2) insert—

